# CYNGOR CYMUNED LLANYSTUMDWY

# ADRODDIAD BLYNYDDOL

## GWAITH Y FLWYDDYN RHWNG 01.04.2021 – 31.03.2022

Dyma adroddiad blynyddol cyntaf Cyngor Cymuned Llanystumdwy sydd yn cofnodi'r gwaith sydd wedi cael ei gyflawni yn ystod 2021/2022. Dyma flas o waith y Cyngor Cymuned, a sut mae'r Cyngor yn gweithredu gyda'r gymuned i wella lles cymdeithasol, amgylcheddol, economaidd a diwylliannol yr ardal i bawb o bob oed.

**Ardal Cymuned Llanystumdwy**

Mae dalgylch y Cyngor yn Eifionydd, ac yn glwstwr o bentrefi bach a chanolig eu maint sydd wedi eu lleoli mewn cefn gwlad prydferth a thlws. Yma mae'r iaith Gymraeg i'w chlywed yn fwrlwm ac mae cyfoeth o ddiwylliant Cymreig ymhobman.

Asgwrn cefn yr economi leol yw'r diwydiannau amaeth, bwyd a thwristiaeth ac mae'r tirwedd yn gymysgedd o dir glas, corsdir, rhosydd a choedwigaeth sy'n ymestyn o lannau ac aber yr afon Dwyfach i ben Garn Bentrych (748 troedfedd uwchlaw'r môr)

Mae'r ardal yn ymestyn o'r rhan sydd ochr uchaf i'r rheilffordd yn Hafan y Môr, ymlaen am Broom Hall hyd at Rydygwystl ar hyd y briffordd heibio Castell Gwgan a Lodge Trallwyn cyn troi ar Bont Gydrhos draw am Fryn Mawr a Brychyni, cyffiniau Hendre Cennin a phen uchaf y Lôn Goed. Yna mae'n ymylu ar Gwindy Llecheiddior ac yna draw heibio Tŷ Cerrig a'r ddau Ystum Cegid, Gell a Phenybryn ar gyrion Cricieth, yna ar lwybr y rheilffordd ac i aber yr afon Dwyfor ac yna yn ôl am Hafan y Môr.

**Gwybodaeth am y Cyngor**

Roedd 1518 o etholwyr ar y gofrestr yng nghymuned Llanystumdwy yn ystod y flwyddyn yma.

Mae pedair ward yn y gymuned a 15 cynghorydd wedi eu hethol tan fis Mai 2022 pan gynhelir etholiad eto:

- **Ward Llangybi** sy'n cynnwys ardaloedd Sardis, Pencaenewydd a Llangybi;

  Cynghorwyr Thomas Prys Jones, Angela Williams a William Ifor Hughes.

- **Ward Llanarmon** sy'n cynnwys ardaloedd Llanarmon, Chwilog ac Afonwen;

  Cynghorwyr Aled Lloyd Evans, Aled Davies, Margaret Griffith, Trefor Jones a Ceri Jones

- **Ward Rhoslan** sy'n cynnwys ardal Rhoslan a draw i Ynys i ben uchaf y Lôn Goed.

  Cynghorwyr Anwen Jones a Tegid Jones.

- **Ward Llanystumdwy** sy'n cynnwys ardal Llanystumdwy ac ymlaen am Benygroes Llanystumdwy.
- Cynghorwyr Sian Angharad Parry, Naomi Jones, Gareth Davies, Darren Morley a Sion Aled Jones.

Etholir Cadeirydd ac Is-gadeirydd yn y cyfarfod blynyddol bob mis Mai. Y Cynghorydd Tegid Jones oedd Cadeirydd y Cyngor yn ystod 2021/2022, a'r Is-gadeirydd oedd y Cynghorydd Angela Williams.

**Staff**

Un aelod o staff sydd gan y Cyngor Cymuned, sef Bethan Parry Jones, sy'n Glerc a Swyddog Ariannol Cyfrifol. Mae'n gweithio rhan amser am 35 awr y mis. Gellir cysylltu gyda'r Clerc drwy e-bost sef clercccllanystumdwy@gmail.com, llythyr i Derwen Gam, Chwilog, Pwllheli, LL53 6SP neu ffôn ar 01766 810 614.

**Cyfarfodydd**

Cynhelir cyfarfodydd arferol y Cyngor Cymuned yn fisol ar nos Iau cyntaf bob mis, heblaw am fis Awst. Cynhelir y cyfarfodydd yn Gymraeg. Yn ogystal â chyfarfodydd llawn y Cyngor cefnogir gwaith y Cyngor gan bwyllgorau sydd wedi'u sefydlu ac yn cyfarfod yn achlysurol i ystyried materion penodol megis cyllid, polisïau ac mae rhestr lawn ohonynt ar ein gwefan. Mae gan bob pwyllgor dermau ac aelodaeth benodedig sydd wedi ei gymeradwyo gan y Cyngor, ac sydd yn cael ei adolygu o bryd i'w gilydd.

Yn ystod y flwyddyn 2021/2022 fe gynhaliwyd pob cyfarfod o bell drwy ddefnyddio technoleg 'zoom' oherwydd Covid-19, ac roedd yn bosib cysylltu hefo'r Clerc i gael y linc.

**Safle We**

Mae gwybodaeth am y Cyngor Cymuned gan gynnwys rhaglenni cyfarfodydd, cofnodion, polisïau, canlyniad archwilio ac hysbysiadau ar safle We'r Cyngor: www.cyngorllanystumdwycouncil.org

**Aelodaeth Allanol**

Mae'r Cyngor yn aelod o Un Llais Cymru, sef y prif gorff ar gyfer cynghorau cymuned a thref Cymru. Mae hyn yn darparu gwasanaeth o roi cyngor cyfreithiol, cyngor ar wella darpariaeth gwasanaethau, hyfforddiant, materion polisi, a gwefan gynhwysfawr. Mae'r Cyngor yn ethol dau aelod i fynychu cyfarfodydd Pwyllgor Rhanbarthol Arfon Dwyfor Un Llais Cymru sydd yn cwrdd yn rheolaidd yn ystod y flwyddyn, sef yr Is-Gadeirydd a'r Clerc. Mae'r Clerc yn perthyn i'r 'Society of Local Council Clerks' (SLCC) sydd yn ffynhonnell gwybodaeth ac ymarfer dda yn y sector a hefyd yn cynnig cyrsiau hyfforddiant a chynadleddau, a'r 'Association of Local Councils'(ALCC).

Mae'r Cyngor yn ethol aelodau i gyrff allanol eraill, sef Bwrdd Llywodraethol ysgolion Chwilog, Llangybi a Llanystumdwy, ac O Ddrws i Ddrws.

**Cyllid a gwariant**

Mae'r broses o benderfynu ar lefel praesept Cyngor Cymuned Llanystumdwy yn cynnwys paratoi cyllideb ddrafft ar sail asesiad o sefyllfa ariannol y Cyngor gan ystyried y costau tebygol, cynlluniau ar gyfer prosiectau, gosod lefel ar gyfer cyfraniadau, o fewn y canllawiau sy'n cael eu cyhoeddi'n flynyddol. Mae hefyd ystyriaeth o'r arian wrth gefn sydd gan y Cyngor er mwyn sicrhau gosod praesept priodol.

Penderfynwyd gofyn am £18,360.00 o arian praesept am y flwyddyn 2022-2023.

Bydd y Clerc yn anfon ebost misol drwy ffurf excel i'r cynghorwyr yn dangos y sefyllfa ariannol hyd at ddyddiad y cyfarfod ac hefyd rhagolwg o'r gyllideb hyd at ddiwedd y flwyddyn ariannol. Mae hyn yn cadw golwg fanwl ar y sefyllfa.

Prif ffynhonnell incwm y Cyngor yw'r praesept sydd yn cael ei osod yn flynyddol a'i gyflwyno i Cyngor Gwynedd ym mis Ionawr ar gyfer y flwyddyn ariannol ddilynol. Mae'r praesept yn cael ei gasglu ar ran y Cyngor gan Cyngor Gwynedd.

Mae'r Cyngor hefyd yn derbyn swm o arian unwaith y flwyddyn gan Gwmni Lightsource, sydd hefo paneli solar ar Fferm Gelli Gron, Pencaenewydd.

**Crynodeb derbyniadau a thaliadau 2021/2022**

| | Derbyniadau<br><br>£ | Taliadau<br><br>£ |
|---|---|---|
| Praesept gan Cyngor Gwynedd | 18,000.00 | |
| Llog banc | 0.45 | |
| Cynnal Llwybrau (ad-daliad gan Cyngor Gwynedd) | 417.80 | |
| Treth ar werth | 207.48 | |
| Cwmni Lightsource-solar | 4190.38 | |
| Cyflog a chyllid y wlad | | 4633.30 |
| Costau staff | | 226.71 |
| Yswiriant | | 747.50 |
| Gwefan | | 493.66 |
| Archwilio cyfrifon | | 192.00 |
| Cyfraniadau | | 8326.22 |
| Torri gwair | | 1975.00 |
| Toiledau cyhoeddus | | 2000.00 |
| Arall | | 2044.10 |
| Cyfanswm | 22816.11 | 20638.49 |

Fe wnaeth pob Cynghorydd ddatgan nad oeddent am dderbyn y £150.00 o lwfans yr oedd hawl ganddynt ei dderbyn yn unol ag adroddiad Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol.

**Atebolrwydd**

Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu côd ymddygiad aelodau a cedwir cofrestr o fuddiannau ar gyfer pob aelod. Mae gofyn i'r cynghorwyr ddatgelu unrhyw fuddiannau sydd ganddynt am eitemau i'w trafod ar gychwyn pob cyfarfod a bydd y rhain yn cael eu nodi yn y cofnodion.

Mae cyfrifon y Cyngor yn cael eu archwilio gan archwilydd mewnol, sef Adran Archwilio Cyngor Gwynedd, a'r archwilio allanol gan Swyddfa Archwilio Cymru. Bydd canlyniad yr archwilio yn cael ei osod ar wefan y Cyngor Cymuned bob blwyddyn a nodwyd fod popeth yn iawn ganddynt ar 07.04.2022.

**Gwaith y Cyngor**

Dyma grynodeb o'r math o waith y mae'r Cyngor Cymuned wedi ei wneud yn ystod y flwyddyn. Bydd y rhaglen y cael ei roi ar y wefan ar y dydd Llun cyn y cyfarfod, a bydd y cofnodion hefyd yno i bawb ei gweld ar ôl iddynt gael eu awdurdodi yn y cyfarfod dilynol. Bydd y cynghorwyr ac aelodau o'r cyhoedd yn cysylltu hefo'r Clerc gan holi am wahanol broblemau sydd angen eu datrys, a byddant yn cael eu trafod yn y cyfarfodydd misol. Bydd y Clerc wedyn yn cysylltu hefo'r adrannau perthnasol/neu unigolion i geisio datrys yr ymholiadau.

- **Ceisiadau cynllunio** – bydd y cynghorwyr yn edrych yn fanwl ar y ceisiadau cyn gwneud penderfyniad ar unai gefnogi'r cais, dim gwrthwynebiad, neu wrthod. Bydd y Clerc wedyn yn anfon llythyr drwy ebost at Adran Cynllunio, Cyngor Gwynedd fel bod yr ymateb i'w weld cyn iddynt wneud penderfyniad terfynol.
- **Gwaith ar y ffyrdd yn y gymuned** – bydd yr Adran Priffyrdd yn anfon manylion am unrhyw waith sydd yn cael ei wneud o fewn y mis canlynol.
- **Cyngor Gwynedd/Un Llais Cymru/Llywodraeth Cymru** – derbynnir gwybodaeth am gynlluniau, deddfwriaeth newydd a bydd cyfle i'r Cyngor cymuned leisio barn ac ymateb.
- **Materion yn y gymuned** – bydd y cynghorwyr neu aelodau o'r cyhoedd yn gofyn i'r Clerc wneud ymholiadau am broblemau sydd yn dod i'r amlwg o dro i dro.

Dyma rai o'r materion a drafodwyd yn ystod y flwyddyn:

- **Pont gerdded** ger afon Llanystumdwy wedi malu, felly fe osodwyd un newydd gan Cyngor Gwynedd.
- **Parcio yn Glanywern, Chwilog** – derbyniwyd cwynion fod ceir yn dal i barcio ar y llinellau melyn, ac yn creu problemau i gerbydau/loriau a pheiriannau amaethyddol yn pasio.
- **Cais i arafu traffig o'r A497** o gyfeiriad Cricieth i fynedfa gyntaf Llanystumdwy – anfonwyd llythyr at Adran Priffyrdd Cyngor Gwynedd yn tynnu sylw fod problemau o draffig trwm yn creu perygl ar hyd y lôn, a bod angen ei ddatrys ar fyrder. Derbyniwyd gwybodaeth fod Uwch Beiriannydd Traffig, wedi trefnu i osod 'cownteri cyflymdra' i gasglu tystiolaeth er mwyn cael datrysiad i'r problemau, a tharo golwg dros ddata damweiniau lleol yn yr ardal. Bydd yr opsiwn i'w lleoli yn yr haf wedyn hefyd.
- **Lloches bws Trallwyn** – difrod wedi cael ei wneud i'r sedd gan fandaliaid, ac fe drefnwyd i'w adnewyddu.
- **Coedwigoedd ger Ynys Creua** – Cyfoeth Naturiol Cymru wedi ymeld â'r lleoliadau oherwydd fod pryder am dorri coed, a gweithgareddau eraill yno.
- **Gwinllan Rhos Ddu, Ynys** – Cyfoeth Naturiol Cymru yn ymweld â'r lle oherwydd fod pryder am dorri coed, llynnoedd yn cael ei creu a bod caban coed sylweddol wedi ei osod yno.

- **Llwybr rhwng Chwilog ac Afonwen** – wedi holi Pennaeth Adran Priffyrdd, Cyngor Gwynedd, ac wedi derbyn gwybodaeth fod mwy o gerdded a beicio ar hyd y lôn oherwydd bod mwy o dai yn y pentref, mwy o blant yn yr ysgol ac agoriad y dafarn leol yn y pentref yn golygu fod bellach mwy o gyfiawnhad dros ymestyn llwybr diogel i'r pentref, sydd hefyd yn hanfodol o ran teithio llesol a diogelwch trigolion yn gyffredinol. Maent felly am ail edrych ar beth sydd yn bosib yma a chyflwyno "bid am grant" neu fod yn barod os oes cyfle am arian yn dod yn rhydd o'r ffynhonnell Teithio Llesol a bod hwn yn un cynllun all fod yn uchel o ran blaenoriaeth.
- **Ceffylau ar y Lôn Goed** – hysbyseb (dyddiedig 15.12.2021 ar y Lôn Goed) o gais gan y Gymdeithas Ceffylau Prydeinig, am Orchymyn Diwygio Adran 53(5) ac atodlen 14 o'r Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981, wedi cael ei osod ar ddarn o'r Lôn Goed. Roeddent yn gofyn am ychwanegu darn o lôn breifat (sydd ddim yn lwybr cyhoeddus nac yn ddarn o'r Lôn Goed) o'r lôn fawr ger Plas Hen hyd at y Lôn Goed i gyfeiriad Beudy Newydd, at y darn heibio Fferm Gaerwen i gyfeiriad Coed Cae Du. Byddai hyn yn ei galluogi wedyn i farchogaeth ceffylau ar hyd y darn yma o'r Lôn Goed.

  Penderfynwyd gwrthwynebu y cais, ar y sail fod nifer o bobl, plant, ysgolion, a chŵn yn cerdded ar hyd y lôn yn gyson drwy'r flwyddyn. Byddai cael ceffylau yn mynd ar hyd y lôn felly'n creu perygl i gerddwyr. Mae hefyd ceir y trigolion sydd yn byw ar hyd y rhan yma o'r Lôn Goed, yn ogystal â pheiriannau a thractorau yn teithio arni'n gyson. Yn ogystal â hyn mae darnau gwlyb ar hyd y darn yma o'r lôn, a byddai ceffylau'n gwneud y sefyllfa'n llawer gwaeth.

**Enwau pontydd** – fe archebwyd 11 arwydd llechen hefo enwau'r pontydd isod o fewn y gymuned, gan Cwmni Llechi'r Ddraig, ac fe wnaeth Adran Ymgynhoriaeth Gwynedd gytuno eu gosod i'r Cyngor Cymuned, a gwneud gwaith cynnal a chadw ar y pontydd ar yr un pryd.

Pont Rhyd y Croesau / Pont Rhyd y Benllig / Pont Rhyd yr Eirin / Pont Hendre Garcin
Pont Tanrallt / Pont Maenllwyd / Pont Ynys Creua / Pont Melin Pencoed / Pont Brychyni
Pont Bryn-Pont Ffynnon Gadfa / Phont Bryn Beddau

**Meddygfa Cricieth** – derbyniwyd cwynion am y sefyllfa yno, sef fod angen i gleifion giwio y tu allan tra'n disgwyl am apwyntiad/ dryswch hefo derbyn apwyntiadau rhwng Porthmadog a Chricieth, a bod y fferyllfa o fewn y Ganolfan Iechyd wedi cau. Cadarnhawyd eu bod yn brin o staff yn y dderbynfa, a'u bod yn gobeithio bydd y gwasanaeth yn y stryd fawr o fantais.

**Sbwriel ar ochr y ffordd rhwng y Ffôr a Chwilog** – cadarnhâd gan Cyngor Gwynedd ei bod am gadw golwg ar y sefyllfa'n rheolaidd.

**Lôn Goed, ger Cefn Coed, Chwilog** – derbyniwyd llawer o gwynion am gyflwr y darn yma o'r lôn, yn mynd i fyny o Chwilog Bach, oherwydd ei bod yn fwdlyd, a deallir fod gwreiddiau rhai o'r coed wedi dod i'r golwg oherwydd fod peiriannau fel tractorau wedi mynd ar hyd y lôn. Nid oedd yn bosib i gerddwyr fynd ar ei hyd yn ystod y gaeaf, oherwydd fod tractorau yn gwneud gwaith i fynedfeydd y caeau ers tro. Cyfeiriwyd y mater at Cyngor Gwynedd.

**Ceisiadau am Gymorth Ariannol gan fudiadau o fewn dalgylch y Cyngor** – dderbynnir ceisiadau drwy lythyr yn cynnwys amlinelliad o'r union fwriad y gwneir gyda'r arian ac mae angen darparu mantolen ariannol gyfredol hefyd, cyn 15fed Ionawr bob flwyddyn.

Yna, bob mis Chwefror, bydd cyfarfod yn cael ei gynnal i drafod y ceisiadau ariannol a dderbyniwyd cyn 15.01.2022. Fe gyfrannwyd at y ceisiadau am gymorth ariannol canlynol:

Clwb Ffermwyr Ifanc Llangybi
Mynwent Capel Helyg, Llangybi
Mynwent Newydd Llanystumdwy
Mynwent Chwilog
Cylch Meithrin Llangybi
Cylch Meithrin Chwilog
Menter y Plu
Clwb Pêl-droed Llanystumdwy
Clwb Snwcer Chwilog
O Ddrws I Ddrws
Elusen Ambiwlans Awyr Cymru
Tŷ Gobaith
Diffibriliwr Neuadd Llanystumdwy
Talu am gysylltiad WiFi yn Neuadd Chwilog

**Gwaith barbio blynyddol ar y llwybrau**.
Gwahoddir prisiau/tendr gan gontractwyr ar gyfer gwaith barbio a chlirio ar y llwybrau canlynol. Bydd angen cynnwys tystysgrif yswiriant cyfredol gyda'r cais.
a. Llwybr swyddogol o Ffynnon Cybi i ben Garn Bentyrch, un toriad.
b. Llwybr dan bont y rheilffordd i'r traeth yn Afonwen, dau doriad.
c. Llwybr heibio Ynysgain Bach hyd at bont y rheilffordd, dau doriad.
ch. Llwybr o'r ffordd fawr i fyny at fythynnod Tŷ Newydd, dau doriad.
d. Llwybr Clawdd Llanw o Bontfechan dros y rheilffordd am Ty'n Morfa, dau doriad.
dd. Ceg y llwybr ar hen ffordd Abercin, ochr y pentref i'r ffordd osgoi.
e. Cadw safle bedd D. Lloyd George yn daclus yn ystod y tymor.
f. Maenywern, Llanystumdwy – gwaith clirio tir y Cyngor ger y bont ac ar hyd y wal i fyny tuag at y Bedd.

Bydd y toriad cyntaf ganol Mehefin, a'r ail doriad ddechrau Medi.

**Glanhau llochesi bws o fewn y gymuned**.

**Cae Chwarae Llangybi** – mae'r Cyngor yn gyfrifol am y gwaith cynnal a chadw ar y cae chwarae, ac mae contract 3 mlynedd wedi ei wneud i dorri'r cae a'i gadw'n daclus rhwng Ebrill a Hydref, ac i lanhau'r matiau duon.

Derbynnir adroddiad blynyddol ar Gae Chwarae Llangybi gan 'Fields in Trust' – sydd yn nodi'n fanwl os oes angen gwneud unrhyw waith cynnal a chadw yno.

**Diffibriliwr yn Rhoslan a Chapel y Beirdd** – trefniadau i osod 2 diffibriliwr newydd oherwydd nad oes un yn yr ardal ar hyn o bryd. Trefnwyd i Cyngor Gwynedd osod polyn trydan ger y lloches bws yn Rhoslan, a gwneud ymholiadau i gael arian grant gan Llywodraeth Cymru.

**Hysbysfyrddau** - mae gan y Cyngor bump ohonynt o fewn y gymuned er mwyn rhannu gwybodaeth hefo'r cyhoedd, yn Chwilog, Llanystumdwy, Pencaenewydd, Llangybi a Rhoslan.

Yn dilyn bob cyfarfod bydd crynodeb o'r cyfarfod misol yn y cael ei roi yn papur bro lleol, Y Ffynnon.

**Pwrpas yr adroddiad** yma yw i nodi blaenoriaethau, gweithgareddau a chyflawniadau'r cygor yn ystod y flwyddyn hyd at 31.03.2022, sydd yn ofynnol gan adran 52 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, a bydd yn cael ei gyhoeddi'n flynyddol o hyn ymlaen.

Mae cynghorau cymuned a thref yn rhan o lywodraeth leol, maent yn cael eu hethol yn ddemocrataidd a gweithio ar y lefel mwyaf lleol i wella y gymuned. Mae'r cyngor yn gyfrifol am gynnal busnes cyhoeddus ac am wario arian cyhoeddus. Yn ôl y gyfraith, mae angen sicrhau fod y cyngor yn diogelu a defnyddio'r arian cyhoeddus a ymddiriedwyd iddynt mewn ffordd darbodus, effeithlon ac effeithiol, gan roi cyfrif priodol amdano. Gwneir hyn wrth gydymffurfio â gofynion cyfreithiol, a chyflawni'r canlyniadau gorau i'r cyhoedd.

**Y Dyfodol**

Yn ystod y flwyddyn nesaf, gobeithir gosod y 2 diffibriliwr yn Rhoslan, a Chapel y Beirdd.

Gosod y llechi ar y pontydd i gadw'r enwau gwreiddiol ar lafar.

Bydd etholiadau Cynghorau Tref a Chymuned fis Mai 2022.

Parhau i gadw'r gymuned yn saff i bawb, ac yn le braf i fyw ynddo.

Llofnodwyd gan:

Cadeirydd: *Sian Angharad Parry*

Clerc: *Bethan Parry Jones*

Dyddiad y'i cymeradwywyd gan y Cyngor - 3ydd o Dachwedd 2022

Dylid ei adolygu'n flynyddol.